

Cynghorion ar Wneud Cais a Chyfweliad

Diolch i chi am eich diddordeb mewn gweithio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd canlynol i'ch helpu i lenwi eich cais. Cofiwch mai dyma'r cam cyntaf yn y broses all arwain at gael cyfweliad ac o bosibl at gael cynnig swydd. Dylech felly lenwi'r cais orau y medrwch. Mae'n werth cymryd yr amser i'w wneud yn iawn.

Yn gyntaf, darllenwch y wybodaeth a ddarperir am y swydd, y gofynion personol ac ati, ac o bosibl, ymchwiliwch ymhellach ar ein gwefan.

Bydd rhai o'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad yn hanfodol ar gyfer y swydd a dylech egluro yn eich cais sut ydych yn bodloni pob un o'r rhain. Ni chewch eich gwahodd am gyfweliad oni bai eich bod o leiaf yn gweddu i'r rhain.

Efallai y bydd rhai sgiliau, gwybodaeth neu brofiad sy'n ddymunol fydd yn eich galluogi i gyflawni'r swydd yn fwy effeithiol. Defnyddir y rhain i benderfynu pwy i wahodd am gyfweliad os oes gan nifer fawr o'r ymgeiswyr bob un o'r meini prawf hanfodol.

Wrth lenwi'r "Datganiad i gefnogi'r cais", defnyddiwch y fanyleb person i'ch helpu i strwythuro'r agweddau perthnasol o'ch profiad, eich sgiliau a'ch gwybodaeth. Anelwch at roi tystiolaeth yn eich cais sy'n cyfateb i bob un o'r meini prawf ar y fanyleb person.

Mae'n bwysig eich bod yn defnyddio enghreifftiau i ddangos yn glir sut ydych chi'n bodloni'r meini prawf hanfodol a dymunol. Nid oes angen i enghreifftiau fod o'ch profiad gwaith - gallant fod o feysydd eraill o'ch bywyd megis cyfrifoldebau domestig neu weithgareddau cymdeithasol. Felly peidiwch â rhoi "Rydw i'n cyfathrebu'n dda, ar lafar ac yn ysgrifenedig" dywedwch wrthym sut, er enghraifft "Fel ysgrifennydd y gymdeithas blasu gwin lleol, rwyf yn trafod gostyngiadau gyda masnachwyr gwin lleol ac yn trefnu nifer o ymweliadau'r Gymdeithas â Calais bob blwyddyn."

Mae'n bwysig eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn eich cais, ni fyddwn yn dyfalu nac yn rhagdybio os na fyddwch yn cynnwys gwybodaeth. Peidiwch â dibynnu ar allu dweud wrthym mewn cyfweliad - os nad ydych yn llenwi eich cais yn llawn, ni fyddwch yn cael cynnig cyfweliad.

Efallai y byddwch yn synnu clywed bod cynifer â 75% o ymgeiswyr yn perfformio'n wael mewn cyfweliad. Yn y mwyafrif o achosion, yr hyn sydd i gyfrif am hynny yw nad oes ganddynt y sgiliau cyfweld angenrheidiol yn hytrach na'u bod yn anaddas ar gyfer y swydd. Felly, os yw meddwl am fynd i gyfweliad yn eich digalonni, dylai'r cyngor canlynol fod yn eithaf defnyddiol i chi.

Paratoi cyn cyfweliad:

Y cam cyntaf tuag at unrhyw gyfweliad llwyddiannus yw'r paratoi.

Gwnewch eich gwaith cartref:

- Cyn y cyfweiliad ceisiwch ddarganfod gymaint ag y medrwch am Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r Awdurdod.
- Os ydych yn ddigon ffodus i adnabod rhywun sy'n gweithio i ni, yna holwch hwy i ddarganfod gymaint ag y medrwch oddi wrthynt.
- Bydd gwaith ymchwil yn gwella unrhyw gyflwyniad y bydd raid i chi o bosibl ei wneud. Bydd eich gwybodaeth a'r ymdrech yr ydych wedi'i wneud yn eich gwaith paratoi yn creu argraff dda ar y rhai sy'n cyfweld.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ymhle fydd y cyfweiliad yn cael ei gynnal a chynlluniwch eich taith.

Beth fyddwn yn ei ofyn o bosibl mewn cyfweiliad?

- Mae'n debyg y gofynnir nifer o gwestiynau i chi am eich profiad blaenorol, megis y cyfrifoldebau oedd gennych a'r hyn a gyflawnwyd gennych.
- A byddwn yn chwilio am 'dystiolaeth' o sut ydych chi'n gweddu i'r meini prawf a restrir ar y fanyleb person. Er enghraifft, os ydym am gael cyfathrebwr da, byddwn yn disgwyl i hynny ddangos yn y cyfweiliad.
- Byddwn yn gofyn am enghreifftiau o'r modd yr ydych wedi cymryd camau yn y gorffennol mewn sefyllfaoedd tebyg i'r hyn a ddisgwylir yn y swydd dan sylw. Felly, meddyliwch am y wybodaeth a roesoch yn eich cais, byddwch yn glir ynghylch sut yr ydych yn bodloni'r hyn yr ydym yn chwilio amdano. A gwnewch yn siŵr eich bod yn meddwl am rai enghreifftiau.

Hefyd dangoswch bod gennych ddiddordeb ynom ni!

Penderfynwch a oes gennych unrhyw gwestiynau am y swydd, y buddiannau, datblygu gyrfa a hyfforddiant, a gwnewch restr o'r rhain i fynd gyda chi i'r cyfweiliad.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi wneud 'prawf' gallu/sgiliau/doniau fel rhan o'r cyfweiliad, neu gyflwyniad o bosibl.

Os ydych wedi paratoi'n dda, rydych yn debygol o swnio'n hyderus, yn drefnus ac yn llawn cymhelliant yn ogystal â bod mewn sefyllfa dda i wneud eich gorau.

Y cyfweiliad

- Mae'r argraffiadau cyntaf yn cyfrif, felly gwisgwch yn briodol ac yn drwsiadus, byddwch yn gwrtais. Cyrhaeddwch ar amser.

- Ceisiwch ganolbwyntio gydol yr amser ar y person sy'n gofyn y cwestiynau - rhowch eich sylw llawn iddo ef/hi. Peidiwch â gadael i'r ffaith bod y cyfwelwyr yn cymryd nodiadau yn ystod y cyfweliad dynnu eich sylw.
- Byddwch yn gadarnhaol amdanoch chi eich hun a'ch llwyddiannau, a chanolbwyntiwch ar eich cryfderau.
- Peidiwch â bod yn negyddol am eich cyflogwr blaenorol.
- Rhowch amser i chi eich hun feddwl - peidiwch ag ofni cymryd saib os bydd angen i chi feddwl am eich ateb.
- Byddwch yn glir a cheisiwch beidio â chrwydro. Os ydych chi'n gwybod eich bod yn tueddu i siarad gormod pan fyddwch yn nerfus, yna cadwch hyn mewn cof a cheisiwch feddwl ymlaen llaw sut y gallwch reoli hyn. Os ydych chi'n tueddu i fethu â dod o hyd i'r geiriau pan fyddwch yn nerfus, yna dylai'r gwaith paratoi yr ydych wedi'i wneud helpu, oherwydd bydd pethau'n barod gennych i'w dweud.
- Byddwch yn barod bob amser i roi enghreifftiau mewn bywyd go iawn i gefnogi unrhyw bwyntiau a wnewch.
- Gofynnwch i'r cyfwelydd am eglurhad os nad ydych yn siŵr beth y mae yn ei ofyn.
- Peidiwch â diystyru eich sgiliau a'ch galluoedd.
- Os nad ydych chi'n gwybod yr ateb i gwestiwn, dywedwch hynny. Does dim byd o'i le ar fod yn onest.

Dylech bob amser ddod yn barod gyda'ch cwestiynau eich hun i'w holi ar ddiwedd y cyfweliad. Er enghraifft, efallai yr hoffech wybod am yr amgylchedd gwaith, p'un a fyddwch chi'n gweithio ar eich pen eich hun neu fel rhan o dîm mwy, beth yw'r rhagolygon ar gyfer hyfforddiant a dyrchafiad, ac ati. Mae hyn yn dangos eich bod wedi meddwl o ddifrif am y swydd a bod gennych ddiddordeb gwirioneddol.

Gallwch hefyd wneud nodiadau ar unrhyw bwyntiau eraill sy'n codi yn y drafodaeth y byddwch o bosibl yn dymuno cael eglurhad arnynt yn ddiweddarach yn y cyfweliad.

Gwnewch yn siŵr bod gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i benderfynu p'un a ydych am y swydd ai peidio, ac os ydych, yna gwnewch hynny'n glir yn y cyfweliad.

Dylem roi gwybod i chi beth sy'n digwydd nesaf (e.e. os bydd ail gyfweliad, neu pryd fyddwn yn cysylltu â'r canlyniad) ond os byddwn yn anghofio, yna gofynnwch.

Pob lwc!